# PWYLLGOR CYNLLUNIO

**23 AWST 2018**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.M. Charles, I.W. Davies, J.A. Davies, P.M. Edwards, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.D. James, C. Jones, D. Jones, H.I. Jones, M.J.A. Lewis, K. Lloyd, K. Madge, B.D.J. Phillips, G.B. Thomas and J.E. Williams.

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd L. Davies a fu'n annerch y Pwyllgor mewn perthynas â chais cynllunio W/37323.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y De);
R. Jones, Swyddog Rheoli Datblygu (Gorllewin);
K. James, Peiriannydd Cynorthwyol (Cydgysylltu Cynllunio);
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr;
R. Mabbitt, Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd;
S. C. Williams, Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin – 10:00am - 11:15am**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr S. Curry a K. Howell.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol neu ragfarnol.

## 3. RHANBARTH Y DWYRAIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**3.1 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio ystyried y cais cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle:-**

| | |
|---|---|
| **E/37292** | **Codi garej ar wahân â tho â phig, 125 Heol Saron, Saron, Rhydaman, SA18 3LH**<br><br>Nododd yr Aelodau fod cais [E34372] wedi cael ei wrthod yn flaenorol gan y Pwyllgor ym mis Tachwedd 2016 a bod y cais hwn yn ceisio datrys y materion a amlygwyd.<br><br>Yng ngoleuni'r uchod, cafwyd cais i'r Pwyllgor gynnal ymweliad safle ar y sail y byddai'n fuddiol i'r aelodau newydd o'r Pwyllgor Cynllunio gael golwg ar y safle.<br><br>**RHESWM:** Galluogi'r Pwyllgor i gael golwg ar y safle. |

**4. RHANBARTH Y DE - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO.**

**4.1 PENDERFYNWYD caniatáu y ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau y manylwyd arnynt yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod, ynghyd â Chytundeb Adran 106:-**

| | |
|---|---|
| **S/36649** | **Cais am dair preswylfa ddeulawr â phedair ystafell wely a llety yn yr atig ynghyd â garej gysylltiedig/ar wahân fel sy'n briodol i'r llain. Ynghyd â mynediad oddi ar y safle a phrif ffyrdd a gwaith draenio cysylltiedig, tir ger Pen y Môr Cottage, Myrtle Hill, Cynheidre, Llanelli, SA15 5YE** |
| **S/36848** | **Datblygiad preswyl i gynnwys dwy breswylfa, tir ger Sŵn Aderyn, Cynheidre, Llanelli, SA15 5YE** |

**5. RHANBARTH Y GORLLEWIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO**

**5.1 PENDERFYNWYD gwrthod y cais cynllunio canlynol, yn groes i argymhelliad y Pennaeth Cynllunio, ar y sail y byddai'r datblygiad arfaethedig yn groes i Bolisi RE2 oherwydd afresymoldeb y cynnig mewn perthynas â'r effaith ar drigolion lleol.**

| | |
|---|---|
| **W/37323** | **Amrywio Amod 5 ar gais W/31099 (lefel y sŵn a gynhyrchir) ar dir yn Wern, Pencader, SA39 9AL**<br><br>Dywedodd y Swyddog Rheoli Datblygu fod llythyr wedi dod i law gan y datblygwr, ers cyhoeddi'r agenda a'r atodiad, a oedd yn ailbwysleisio pwyntiau a oedd eisoes wedi eu codi yn y dogfennau a gyflwynwyd.<br><br>Cafwyd sylwadau a wrthwynebai'r cais am newid Amod 5, gan ailbwysleisio'r pwyntiau yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio, ac roeddent yn cynnwys y canlynol:<br><br>• Pryder cyffredinol ynghylch y cynnydd yn y terfyn sŵn a osodir gan Amod 5 ar gais W/31099 o 35db i 37dB.<br><br>• Pryder ynghylch y cynnydd yn y terfyn sŵn, o ystyried bod y tyrbin gweithredol eisoes yn aflonyddu ac yn arwain at effaith niweidiol ar amwynder.<br><br>• Pryder nad oedd unrhyw asesiad wedi cael ei wneud o'r tyrbin presennol i gael gwybod a oedd yn cydymffurfio â'r terfynau sŵn cymeradwy ac a oedd llafn y rotor wedi cael ei gwtogi.<br><br>• Pryderon a oedd eisoes wedi eu codi gan amrywiol gymdogion yn ymwneud ag effaith sŵn a godwyd yn ystod yr asesiad o gais W/31099. |

| | |
|---|---|
| | • Pryderon ynghylch diffyg cydnabyddiaeth o "wyntoedd croesrym" yn asesiad sŵn yr ymgeisydd.<br><br>• Pryder nad oedd pŵer y tyrbin gweithredol wedi cael ei leihau.<br><br>• Mae gan y Cyngor ddyletswydd gofal i ddiogelu trigolion.<br><br>• Bod y tyrbin gwynt o fewn yr uchafswm pellter gwahanu a argymhellir sef 500m.<br><br>• Byddai caniatáu newid yr amod yn cael effaith ddifrifol ar yr eiddo cyfagos.<br><br>• Roedd cyfluniad presennol y tyrbin gwynt eisoes wedi cael effaith niweidiol ar iechyd a llesiant perchenogion yr eiddo cyfagos.<br><br>Ymatebodd y Swyddog Rheoli Datblygu ac Ymarferwyr yr Amgylchedd i'r materion a'r ymholiadau a godwyd. |

**5.2 PENDERFYNWYD caniatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau y manylwyd arnynt yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod, ynghyd â Chytundeb Adran 106:-**

| | |
|---|---|
| **W/37528** | **Preswylfa ar dir ger Rhos Wen, Heol Caegwyn, Dre-fach, Llanelli, SA14 7BB** |

## 6. LLOFNODI YN COFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 7 AWST 2018

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion y cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 7 Awst, 2018 i nodi eu bod yn gywir.**

________________________ ________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

*[SYLWER: Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw weddarlledadiad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.]*